**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

# CYFLWYNIADAU GAN Y PANEL YMGYNGHOROL AR ADDYSG DROS DDATBLYGU CYNALIADWY

## Diben

Diben y papur hwn yw rhoi gwybodaeth gefndir i'r Pwyllgor ar y Panel Ymgynghorol ar Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy, cyn i aelodau'r Panel wneud cyflwyniadau ar 22 Mai.

## Crynodeb

Mae'r papur hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth gefndir ar paham y sefydlwyd y Panel;
- Cyfansoddiad y Panel;
- Gwaith y Panel a'i is-grwpiau;
- Materion i'w trafod gan aelodau'r Panel yng nghyfarfod y Pwyllgor.

## Amseru

Bydd y papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir am y Panel Ymgynghorol a'i waith, cyn 22 Mai, pan fydd aelodau'r Panel yn gwneud cyflwyniadau i'r Pwyllgor.

## Cefndir

Mewn cyfarfod â'r Gweinidog ym mis Mawrth 2001, awgrymodd partneriaid y sector gwirfoddol sefydlu panel ymgynghorol i ystyried sut i hybu addysg dros ddatblygu cynaliadwy yn effeithiol mewn ysgolion ac addysg oedolion. Yr oeddent yn arbennig o bryderus na ddylid ystyried bod addysg dros ddatblygu cynaliadwy yn gyfystyr ag addysg amgylcheddol. Yn hytrach, fe ddylai ganolbwyntio ar y gyd-ddibyniaeth rhwng cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd a dangos sut y byddai ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn effeithio ar ei gilydd. Cytunodd y Gweinidog i sefydlu panel ymgynghorol ac ym mis Mai 2001 cyfarfu'r Panel Ymgynghorol ar Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy am y tro cyntaf.

## Ystyriaeth

### Cyfansoddiad y Panel

Yn ogystal â swyddogion y Cynulliad, mae'r Panel Ymgynghorol yn cynnwys cynrychiolwyr ystod eang o gyrff, gan gynnwys:

- ACCAC;
- Estyn;
- ELWa;
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Oxfam Cymru
- Yr RSPB
- Gr•p Cadw Cymru'n Daclus

**Gwaith y Panel**

Cytunodd y Panel yn gyflym ar Gylch Gwaith a Rhaglen Waith a sefydlodd dri is-gr•p i fwrw ymlaen â'r Rhaglen Waith. Mae'r is-grwpiau yn edrych ar y canlynol ar hyn o bryd:

- Ymgorffori addysg dros ddatblygu cynaliadwy ar draws y Cwricwlwm a lledaenu arferion da rhwng ysgolion;
- Ymgorffori addysg dros ddatblygu cynaliadwy mewn addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus;
- Cyfathrebu datblygu cynaliadwy ar draws y prif sectorau yng Nghymru, gan gynnwys y sector preifat, y sector gwirfoddol a'r sector addysg uwch.

Yn ogystal â gwaith yr is-grwpiau, mae'r Panel yn ystyried cynhyrchu taflen ar gyfer ysgolion, ar y cyd â'r Gweithgor ar Ddinasyddiaeth Fyd-eang. Mae'r daflen yn anelu at:

- Ddiffinio addysg dros ddatblygu cynaliadwy ac addysg dros ddinasyddiaeth fyd-eang;
- Nodi meysydd lle ceir gorgyffwrdd;
- Tanlinellu'r gwahaniaeth rhwng y ddau gysyniad.

**Materion sydd i'w Cynnwys yn y Cyflwyniadau**

Mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes eisoes wedi clywed cyflwyniadau ar waith yr is-grwpiau ar y canlynol:

- Ymgorffori addysg dros ddatblygu cynaliadwy ar draws y Cwricwlwm a lledaenu arferion da rhwng ysgolion;
- Ymgorffori addysg dros ddatblygu cynaliadwy mewn addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus.

Ceir adroddiad ar hynt a helynt y gwaith pwysig hwn yn y Pwyllgor hwn. Cyflwynir papur hefyd ar gyfathrebu datblygu cynaliadwy er mwyn i aelodau'r Pwyllgor ystyried rhai o'r materion y bydd y papur hwnnw yn eu codi. Yn ogystal â gwaith y tri is-gr•p, bydd aelodau'r Panel yn trafod eu cyfranogiad yn y Sioe Addysg, a phrosiectau i hybu addysg dros ddatblygu cynaliadwy, sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Y Sioe Addysg**

Ym marn y Panel mae'r Sioe Addysg ar 23 a 24 Mai, yn Arena Ryngwladol Caerdydd, yn gyfle rhagorol i:

- Godi ymwybyddiaeth o'i waith;
- Rhannu arferion da;
- Cael barn athrawon am y mathau o gymorth a fyddai'n ddefnyddiol iddynt wrth fwrw ymlaen ag addysg dros ddatblygu cynaliadwy.

Bydd gan y Panel stondin yn y Sioe ac fe fydd hefyd yn rhoi cyflwyniadau ar agweddau ar addysg dros ddatblygu cynaliadwy.

**Ariannu Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu £50,000 am y flwyddyn ariannol 2002-3, i ariannu prosiectau peilot arloesol sy'n ceisio:

- Ymgorffori addysg dros ddatblygu cynaliadwy yn effeithiol ar draws y cwricwlwm;
- Lledaenu arferion da mewn addysg dros ddatblygu cynaliadwy;
- Ymgorffori addysg dros ddatblygu cynaliadwy mewn addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus.

**Cydymffurfio**

Mae Adran 10 o Ddeddf Addysg 1996 yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hybu addysg pobl Cymru. Mae swyddogaethau o dan y Ddeddf hon wedi'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Nid oes unrhyw faterion rheoleidd-dra na phriodoldeb.

**Themâu Trawsbynciol**

Â datblygu cynaliadwy y mae'r papur hwn yn ymwneud yn bennaf. Er hynny, gan fod datblygu cynaliadwy yn ymwneud â gwneud y cysylltiadau rhwng cymdeithas, yr economi a'r

amgylchedd, mae materion datblygu cynaliadwy yn effeithio ar anfantais gymdeithasol a chyfle cyfartal. Mewn cymdeithas wirioneddol cynaliadwy, ni fyddai unrhyw anfantais gymdeithasol ac anghydraddoldeb cyfle. Felly, mae gan hybu datblygu cynaliadwy oblygiadau ar gyfer pob un o'r tair thema drawsbynciol.

**Casgliad**

Gwahoddir y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau ac awgrymiadau i aelodau'r panel ymgynghorol.

**Alan Lansdown**

**Cadeirydd**

**Panel Ymgynghorol ar Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy**

**Yr Adran Hyfforddiant ac Addysg**

**Pennaeth yr Is-adran Cymorth Disgyblion**

**Cyswllt**

Mei Lin Ng, Yr Is-adran Cymorth Disgyblion, est. 3317.